



**Wise  
Cymru**

**Wise  
Wales**

Adroddiad  
Pecyn Cymorth  
Canllawiau  
Partneriaeth



## Tudalen Gynnwys

|   |              |
|---|--------------|
| <b>Rhagarweiniad</b>                        | <b>3</b>     |
| <b>Sut mae'r pecyn cymorth yn gweithio?</b> | <b>4</b>     |
| <b>Arwydd 1</b>                             | <b>5</b>     |
| <b>Arwydd 2</b>                             | <b>6</b>     |
| <b>Arwydd 3</b>                             | <b>7</b>     |
| <b>Arwydd 4</b>                             | <b>8 - 9</b> |
| <b>Arwydd 5</b>                             | <b>10</b>    |
| <b>Crynodeb</b>                             | <b>11</b>    |

**“Partneriaeth yw  
amgylchedd lle caiff  
blaenoriaethau, cynnwys  
a chyfeiriad y profiad  
dysgu eu gosod gan  
fyfyrwyr a staff ar y cyd.”**



## Rhagarweiniad

### Diben y pecyn cymorth

Amcan y pecyn cymorth hwn yw cynorthwyo sefydliadau ac undebau myfyrwyr addysg uwch i weithio tuag at ddiwylliant o 'bartneriaeth ystyrion'. Nid yw'r pecyn cymorth hwn yn cymryd yn ganiataol fod yr un agwedd yn gweddu i bawb, ac mae wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio gan bob sefydliad, beth bynnag fo'i faint a/neu'r adnoddau sydd ar gael iddo.

### Beth yw 'partneriaeth ystyrion'?

Pan rydym yn cyfeirio at ddiwylliant partneriaeth, rydym yn sôn am fyfyrwyr yn cael llais ar y cyd â'u sefydliad addysgol, ar ansawdd yr addysg a ddarperir.

Mae datganiad 'Partneriaeth ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru' yn ei gwneud yn glir ein bod ni yng Nghymru'n credu bod llawer mwy i bartneriaeth na dim ond gwrando ar lais myfyrwyr, ac mae'n fwy na dim ond galluogi myfyrwyr i gael mewnbwn i'r penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw.

Partneriaeth yw amgylchedd lle caiff blaenoriaethau, cynnwys a chyfeiriad y profiad dysgu eu gosod gan fyfyrwyr a staff ar y cyd. Mae'r datganiad yn ei gwneud yn glir fod partneriaeth yn ethos, yn hytrach nag un gweithgaredd neu ddigwyddiad. Myfyrwyr yw'r cyntaf i wybod a gaiff asesiadau eu dychwelyd yn hwyr neu fodiwlau eu canslo heb reswm neu esboniad. Ond hefyd, myfyrwyr yw'r rheiny sy'n gwybod orau pa ddarlithwyr sy'n mynd y filltir ychwanegol gan sicrhau bod darlithoedd yn ddiddorol ac yn bersonol a gwerthfawrogi mewnbwn myfyrwyr drwy'r modiwl.

Cydnabyddiaeth o'r rôl hanfodol hon sydd gan fyfyrwyr mewn llunio eu profiad addysgol arweiniodd ar greu Wise Cymru yn y lle cyntaf.

Cred Wise Cymru fod pob myfyriwr yn arbenigwr a gall pawb gyfrannu safbwynt unigryw i'r drafodaeth. Drwy weithio mewn partneriaeth â'u prifysgol neu goleg, gall myfyrwyr gael grym i feddiannu eu profiad addysgol eu hunain.

I weld y Datganiad Partneriaeth yn ei gyfanrwydd, ewch i:  
<http://www.wisewales.org.uk/cy/hyfforddi-ac-adnoddau/>

### Sut cafodd y pecyn cymorth ei ffurfio?

Casglwyd dangosyddion partneriaeth effeithiol o sefydliadau AU ac undebau myfyrwyr fel rhan o waith Wise Cymru yn 2013/2014. Defnyddiwyd y rhain i ffurfio sail i'r pecyn cymorth hwn.

Mae'r dangosyddion hyn yn perthyn i'r categorïau 'hanfodol' a 'dymunol', ynghyd a rhai syniadau o feini prawf allweddol er mwyn asesu eu presenoldeb.



## Sut mae'r pecyn cymorth yn gweithio?

Defnyddiodd sefydliadau ac undebau myfyrwyr y dangosyddion i fapio lle roeddent yn meddwl eu bod parthed y rhain a gwelir canlyniadau cyfartalog hyn isod.

Gellir dod o hyd i grynodedb o'r holl bwyntiau ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## Allwedd Mapio

**Dyma'r allwedd y bydd angen ei defnyddio i raddio meini prawf hanfodol a dymunol pob arwydd ar y diagram**

9-10 = Rhagorol ac angen ei ddatblygu i mewn i astudiaeth achos

7-8 = Mae arferion gweddol ddatblygedig ac effeithiol yn y maes hwn

5-6 = Gellir darparu tystiolaeth i ddangos arfer yn y maes hwn

3-4 = Mae ychydig o dystiolaeth o arfer yn y maes hwn

1-2 = Nid oes gwaith cydnabyddedig yn y maes hwn



## Arwydd 1


**Caiff partneriaeth ei thrafod yn rheolaidd ymysg cynrychiolwyr y sefydliad ac undeb y myfyrwyr**

### Meini Prawf Hanfodol

- Mae cynrychiolwyr sefydliad ac undeb y myfyrwyr yn neilltuo amser i gyfarfod a thrafod sut beth ddylai diwylliant o bartneriaeth fod
- Caiff cyfleoedd newydd i wella arferion ymgysylltu myfyrwyr a phartneriaeth eu cynnwys ar agenda amrywiaeth eang o gyfarfodydd pwyllgor priodol y sefydliad, a'u hadolygu'n rheolaidd
- Caiff datganiadau blynyddol eu creu gan gorff y myfyrwyr ac mae sefydliadau'n ymateb yn weithredol i'r argymhellion, canmoliaethau a phryderon a godir

### Meini Prawf Dymunol

- Caiff fforymau partneriaeth eu sefydlu ar y cyd â chorff y myfyrwyr i drafod y materion yn ffurfiol





## Arwydd 2


Mae modd i'r ddwy ochr ganfod enghreifftiau o arferion da, sy'n ymwneud ag ymgysylltu myfyrwyr a phartneriaeth, y gellir eu gweithredu yn eu sefydliadau eu hunain

### Meini Prawf Hanfodol

- Mae cynrychiolwyr y sefydliad ac undeb y myfyrwyr yn ymgysylltu â sefydliadau eraill er mwyn cael goleuni ar eu harferion partneriaeth a rhannu syniadau a heriau â chyfoedion ledled Cymru

### Meini Prawf Dymunol

- Caiff arfer da o ran partneriaeth ei gynnwys fel rhan allweddol o siarter y myfyrwyr a'i hyrwyddo i gorff y myfyrwyr
- Bydd cynrychiolwyr yn ceisio cyfleoedd i rannu eu harferion da eu hunain





## Arwydd 3


**Caiff ethos partneriaeth ei weithredu ar draws y sefydliad ac undeb y myfyrwyr; caiff y neges ei lleadaenu'n weithredol**

### Meini Prawf Hanfodol

- a) Gwneir cyfarfodydd ar faterion sy'n ymwneud â phrofiad myfyrwyr mor hyblyg â phosib i sicrhau'r cyfranogiad uchaf gan fyfyrwyr
- b) Anfonir e-byst ar draws y sefydliad ac undeb y myfyrwyr i sicrhau bod gan aelodau staff ddealltwriaeth sylfaenol o bwysigrwydd partneriaeth
- c) Mae cefnogaeth i ymgysylltiad a phartneriaeth myfyrwyr ar draws y sefydliad, nid yn unig gan staff/adrannau sy'n gyfrifol am gefnogi a gwella partneriaeth.
- d) Cyflwynir ffyrdd o ledaenu arferion partneriaeth da o fewn y sefydliad ac undeb y myfyrwyr, boed ar ffurf cyfarfodydd neu gyfathrebu digidol

### Meini prawf dymunol

- e) Crëir rolau staff newydd yn arbennig ar gyfer gwella'r agenda bartneriaeth a chreu cyfathrebu effeithiol rhwng y sefydliad ac undeb y myfyrwyr
- f) Bydd cymorth ffurfiol ar gael i'r rheiny sy'n cael y cysyniad yn heriol
- g) Mae sefydliadau ac undebau myfyrwyr yn ymdrechu ar y cyd i sicrhau y caiff llefydd i fyfyrwyr eu llenwi ar gyd-bwyllgorau, yn hytrach na'u gadael yn wag
- h) Mae'r staff perthnasol sy'n wynebu myfyrwyr yn deall strwythurau ymgysylltu â myfyrwyr ac yn gallu rhoi cyngor i fyfyrwyr





## Arwydd 4

**Mae'r cyfleoedd ymarferol i fyfyrwyr fod yn bartneriaid mewn gwella a llunio eu profiad mewn addysg yn cynyddu ac yn datblygu**



### Meini Prawf Hanfodol

- a) Sicrhau presenoldeb system gynrychiolydd cwrs sy'n effeithiol a democrataidd, wedi'i haenu ac sy'n eiddo i gorff y myfyrwyr gyda chymorth y sefydliad
- b) Dangos bod myfyrwyr yn gwybod sut a ble i godi materion priodol
- c) Mae'r sefydliad ac undeb y myfyrwyr yn cydweithio ar gynnal o leiaf un prosiect neu gynllun peilot sy'n ei gwneud yn haws i fyfyrwyr ddod yn rhan o'r broses o wella profiad ehangach myfyrwyr, gyda golwg ar ddatblygu'r gwaith petai'r peilot yn llwyddiant
- d) Caiff y ffyrdd y mae'r sefydliad yn defnyddio adborth myfyrwyr eu hyrwyddo'n weithredol ac yn eang er mwyn cau'r cylch adborth ac annog cyfranogiad cyson a gwirioneddol gan fyfyrwyr ar lwybrau adborth
- e) Mae myfyrwyr yn rhan o'r holl brosesau penderfynu sy'n effeithio arnynt ar draws y sefydliad cyfan
- f) Mae cynrychiolwyr myfyrwyr yn eistedd ar bob corff penderfynu priodol sydd â'r potensial i effeithio ar brofiad ehangach myfyrwyr

### Meini Prawf Dymunol

- g) Bydd myfyrwyr yn chwarae mwy o ran yn y broses ddatblygu polisiau a gweithdrefnau sefydliadol ac adrannol
- h) Mae prosiectau a chynlluniau annibynnol yn datblygu mewn i raglenni hyrwyddo partneriaeth blynyddol
- i) Ceir cymorth i hwyluso myfyrwyr i greu'r newidiadau maen nhw am eu gweld, (e.e. canolfannau galw heibio lle gall myfyrwyr gyflwyno eu syniadau a thrafod y cyfleoedd sydd ar gael er mwyn eu troi'n realiti)
- j) Mae sefydliadau ac undebau myfyrwyr yn cynnal cynadleddau, gweithdai a fforymau profiad myfyrwyr i drafod a herio syniadau partneriaeth, yn ogystal â lledaenu'r arferion presennol yn y sefydliad ac ar draws y sector addysg uwch
- k) Mae ymgysylltiad myfyrwyr o ran ffurfio prosesau yn dechrau ymestyn y tu hwnt i ddysgu ac addysgu







## Arwydd 5


### Mwy o ymgysylltiad â chynulleidfa ehangach o fyfyrwyr

#### Meini Prawf Hanfodol

- a) Mae cymaint o gymunedau myfyrwyr â phosib yn cyfrannu at adroddiadau blynyddol gan fyfyrwyr i greu darlun manylach o weledigaeth corff ehangach y myfyrwyr am newid
- b) Mae sefydliadau'n gweithio gydag undebau myfyrwyr i ddsbarthu dulliau casglu data i ganfod pa gymunedau myfyrwyr sydd fwyaf a lleiaf tebygol o ymgysylltu
- c) Ceir ymdrech i recriwtio cynrychiolwyr cwrs o gynifer o gymunedau myfyrwyr â phosib

#### Meini Prawf Dymunol

- d) Mae cynrychiolwyr cwrs yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth o ran gwella'r cyfathrebu â myfyrwyr nad ydynt yn ymgysylltu cymaint
- e) Mae sefydliadau ac undebau myfyrwyr yn gweithio ynghyd i godi ymwybyddiaeth o'r manteision o weithio mewn partneriaeth a chymryd meddiant o'u haddysg drwy drefnu digwyddiadau a datblygu cymhelliannau er mwyn i fyfyrwyr gyfranogi





## Crynodeb

Mae'r data uchod yn seiliedig ar ganlyniadau cyfartalog pum sefydliad addysg uwch o bob rhan o Gymru. At ddibenion y papur hwn, gwnaed yr holl ganlyniadau'n ddiennw.

Sylwch fod meini prawf 3e, 3f a 4c yn cael eu cuddio oherwydd atebion anghyflawn.

## Canlyniadau Uchaf

Gwelwyd rhai o'r canlyniadau gorau ym maen prawf hanfodol dangosydd 4. Yn benodol, roedd pob sefydliad AU a gymerodd ran yn graddio eu systemau cynrychiolwyr cyrsiau (4a) fel rhai sydd wedi'u datblygu'n dda ac yn effeithiol. Mae hwn yn gam cyntaf gwych yn y daith tuag at bartneriaeth ystyrlon, yn enwedig pan fo'r system yn cael ei harwain gan fyfyrwyr.

Enghraifft arall o arfer da yw 4f - cynrychiolwyr myfyrwyr yn eistedd ar gyrrff gwneud penderfyniadau priodol, ac yn cael y cyfle i effeithio ar brofiad ehangach y myfyriwr. Gyda sgôr cyfartalog o 8.5, mae'n amlwg bod y maen prawf hwn yw un sy'n cael ei weithredu'n effeithiol iawn ar draws yr holl sefydliadau AU.

Roedd llawer o'r meini prawf hanfodol eraill yn y dangosydd hwn hefyd yn sgorio'n uchel, gan awgrymu bod y ffyrdd ymarferol o ymgysylltu myfyrwyr mewn partneriaeth yn gyffredinol wedi eu datblygu'n dda, yn cynyddu ac yn esblygu yn y rhan fwyaf o sefydliadau yng Nghymru.

Yr enghraifft olaf i dynnu sylw ato yw 2a, sy'n cyfeirio at gynrychiolwyr sefydliadau ac undebau myfyrwyr yn ymgysylltu â sefydliadau eraill i rannu arferion, syniadau a heriau partneriaeth ledled Cymru. Mae sefydliadau AU yn gweithredu hyn yn ardderchog, gan arwain at feithrin ysbryd o gydweithredu.

O hyn, gellir gweld bod y cryfderau yng Nghymru yn perthyn i gynrychiolwyr myfyrwyr, y cyfleoedd a roddir iddynt i lunio profiad y myfyrwyr, a rhannu arferion da. Mae'r rhain i gyd yn ffurfio sylfaen ardderchog y gall partneriaeth wirioneddol ffynnu ohoni, ond mae rhai meysydd y mae angen sylw a chymorth pellach arnynt.

## Lle i Wella

Mae rhai canlyniadau o'r pecyn cymorth hwn wedi tynnu sylw at feysydd sydd â sgoriau cyson isel, gan nodi lle ar gyfer gwelliant o bosib.

Y cyntaf o'r rhain yw 3b - afon negeseuon e-bost allan i staff yn y sefydliad ac undeb y myfyrwyr i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth sylfaenol o bwysigrwydd partneriaeth. Mae hon yn dasg syml i fynd i'r afael â hi, fodd bynnag, ac os gallir ei gywiro, gallai helpu i ysgogi ymdeimlad o bartneriaeth trwy bob lefel o'r sefydliad.

Mae Dangosydd 5 yn dangos sgoriau cyson isel. Mae adroddiadau blynyddol myfyrwyr yn brin o fewnbwn amrywiol gan gymunedau myfyrwyr (5a), sy'n golygu nad yw'r corff myfyrwyr ehangach yn cael ei gynrychioli. Mae'n ddiddorol nodi bod rhywfaint o anghysondeb yn 5a, fodd bynnag, mae'n golygu y gall Wise Cymru hwyluso rhannu arfer da yn y maes penodol hwn, er mwyn galluogi sefydliadau i ddysgu oddi wrth gryfderau ei gilydd.

Mae 5b yn sgorio'n arbennig o isel, gyda sgôr cyfartalog o 4.8 yn unig - yr isaf ar y cyfan. Mae'r maen prawf hwn yn cyfeirio at y gwaith mae sefydliadau'n ei wneud gydag undebau myfyrwyr i sefydlu lefelau ymgysylltu gwahanol gymunedau myfyrwyr. Mae hyn yn awgrymu bod partneriaeth efallai'n fwy heriol rhwng sefydliadau ac undebau myfyrwyr, yn



hytrach na rhwng myfyrwyr a staff. Bydd hyn yn bwydo i mewn i thema Wise Cymru am eleni, fydd â'r nod o ganfod rhwystrau a gwella'r berthynas rhwng sefydliadau ac undebau myfyrwyr.

Mae'r ddau faen prawf yma hefyd yn dangos bod angen rhoi mwy o ymdrech i ymchwil yn ymwneud â demograffeg myfyrwyr ymgysylltiedig (a'r rheiny sydd ddim yn ymgysylltiedig). Mae hwn yn gam pwysig wrth greu diwylliant o bartneriaeth, gan y dylai partneriaeth fod yn hygyrch i bob myfyriwr. Bydd hyn eto yn bwydo i thema Wise Cymru o anelu at ymgysylltu â myfyrwyr 'anodd eu cyrraedd'.

Yn olaf, mae 5e hefyd yn dangos rhai sgorau isel, gan gyfeirio at y sefydliad ac undeb y myfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth o fanteision partneriaeth. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a yw'r mater yn ymwneud â'r sefydliad a'r undeb myfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd, neu a yw'n broblemau o ran codi ymwybyddiaeth ymysg myfyrwyr. Ymdrinnir â'r ddau fater yma o fewn themâu Wise Cymru eleni.

## **Yr Anghysondeb Mwyaf**

Mae rhai meini prawf wedi dangos anghysondeb rhwng sefydliadau sy'n amlygu meysydd lle mae partneriaeth yn heriol i rai, ond yn llwyddiannus i eraill.

Mae 1c yn enghraifft o hyn - yn gofyn a yw corff y myfyrwyr yn cwblhau datganiadau blynyddol ac a yw'r sefydliadau'n ymateb iddynt. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a yw'r datganiadau'n cael eu hysgrifennu yn y lle cyntaf, neu a yw'n ddiffyg ymateb gan y sefydliad. Efallai mai dyma ble mae'r gwahaniaeth rhwng y canlyniadau, oherwydd bod y cwestiwn yn cael ei ddehongli'n wahanol. Mae hwn eto yn faes a fydd yn cael ei ystyried fel rhan o ymchwil Wise Cymru i'r berthynas rhwng sefydliadau ac undebau myfyrwyr.

Ymddengys fod Fforymau Partneriaeth (1d) yn bwynt arall o anghysondeb. Mae'n ymddangos yn glir eu bod naill ai'n digwydd neu ddim, ac os ydynt yn seiliedig ar y materion a godwyd yn y datganiadau y cyfeirir atynt yn 1c, mae'n gwneud synnwyr i'r dangosyddion ddangos lefelau tebyg o anghysondeb.

Yn olaf, ymddengys bod myfyrwyr sy'n ymwneud â'r holl brosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ar draws y sefydliad cyfan (4e) hefyd yn achos anghysondeb. Ar y cyfan, sgoriodd sefydliadau eu hunain yn ganolig. Fodd bynnag, daeth dau ohonynt ar naill ben y sbectrwm a'r llall. Mae'r gwahaniaeth hwn yn ddiddorol i'w nodi a gallai fod oherwydd diffyg ymgysylltiad gan fyfyrwyr neu amharodrwydd ar ran y sefydliad i'w cynnwys.

## **Crynodeb**

Yn gyffredinol, ymddengys fod systemau cynrychiolaeth cyrsiau yn feysydd cryfder, tra bod meysydd i'w gwella yn canolbwyntio ar ledaenu'r syniad o bartneriaeth drwy'r sefydliad cyfan ac at ei holl fyfyrwyr. Efallai bod yr anghysondebau mwyaf yn cael eu hachosi gan y gwahanol lefelau o ymgysylltiad gan y sefydliad.

Bydd yr holl ganlyniadau hyn yn llywio gwaith Wise Cymru yn y dyfodol, gan ddechrau gydag ymchwil eleni i bartneriaethau rhwng sefydliadau ac undebau myfyrwyr. Bydd mwy o fanylion am y gwaith sy'n cael ei wneud, sut y bydd o fudd i chi, a sut y gallwch chi helpu'n cael ei ddiweddarau ar ein gwefan dros yr wythnosau nesaf.

[www.wisewales.org.uk](http://www.wisewales.org.uk)  
@wise\_cymru  
@wise\_wales

